Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Comisiwn y Cynulliad

Lleoliad:
**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 18 Ebrill 2013**

Amser:
**11:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Carys Evans, 029 2089 8598**
Clerc y Pwyllgor

## Agenda
AC(4)2013(5)

### 1. Cyflwyniad y Cadeirydd

**Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**

**Datganiadau o fuddiant**

**Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol** (Tudalennau 1 - 3)

### 2. Adolygiad strategol o ystâd y Cynulliad 2013

Papur 2 (rhannau 1 a 2)

### 3. Papur i'w nodi – Cofnodion drafft y Pwyllgor Archwilio 21 Chwefror

Papur 3

### 4. Unrhyw Fusnes Arall

# Eitem 1c

## Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 28 Chwefror 2013** |
| Amser: | **10:30 - 12:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: AC(4)2013(4)

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Angela Burns** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad (Swyddog)**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (Swyddog)**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd (Swyddog)**<br>**Carys Evans, Prif Ysgrifennydd y Comisiwn (Swyddog)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, y Dirprwy Lywydd**<br>**Mair Barnes, Cynghorwr Annibynnol** |

## 1. Cyflwyniad

1(i) Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Sandy Mewies AC a Rhodri Glyn Thomas AC.

1(ii) Datganiadau o fuddiant

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

1(iii) Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cafodd y cofnodion eu cytuno arnynt yn amodol ar welliant o dan eitem 3.

## 2. Adrodd ar berfformiad corfforaethol

Wrth iddo graffu ar gyllideb y Comisiwn, argymhellodd y Pwyllgor Cyllid y dylai'r Comisiwn gyhoeddi dangosyddion perfformiad blynyddol. Bu'r Comisiynwyr yn trafod ystod o ddangosyddion arfaethedig a fyddai'n dangos cynnydd tuag at Nodau Strategol y Comisiwn. Byddai'r rhain yn cael eu cyhoeddi'n gyson, ac roeddent yn debygol o esblygu a chael eu mireinio dros amser.

Cytunodd y Comisiynwyr y byddai angen i'r dangosyddion fod yn ansoddol yn ogystal ag yn feintiol, ac y byddai cynnydd yn erbyn targedau yn cael ei ddangos lle bo hynny'n briodol. Byddai meincnodi yn erbyn sefydliadau eraill hefyd yn dangos faint o gynnydd sy'n cael ei wneud, er na fyddai hyn yn bosibl ym mhob maes.

Pwysleisiwyd yr angen i gynnwys dangosyddion a oedd yn berthnasol i berfformiad y Comisiwn. Awgrymwyd newidiadau i'r cynigion yn y papur yn y meysydd a ganlyn:

- Gwasanaethau dwyieithog a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg;
- Ymgysylltu â'r cyhoedd drwy'r wefan, Senedd TV a chyfryngau cymdeithasol;
- Sylw yn y cyfryngau y tu mewn a'r tu allan i Gymru, gan gynnwys sylw mewn cyfryngau gwahanol i'r arfer;
- Cysylltiadau â chynrychiolwyr rhyngwladol;
- Lefel yr ymgysylltu â'r gymdeithas sifig;
- Gwell ymgysylltiad â grŵpiau sy'n anodd eu cyrraedd;
- Rheoli risg;
- Boddhad defnyddwyr â TGCh.

Cytunwyd y dylid ymgynghori â'r Pwyllgor Cyllid ar ddangosyddion perfformiad.

**Cam i'w gymryd: Y Bwrdd Rheoli i adolygu'r dangosyddion**.

## 3. Adroddiad ar gynnydd a pherfformiad TGCh

Gwnaethpwyd cynnydd mewn nifer o feysydd ers y tro diwethaf i'r wybodaeth ddiweddaraf gael ei rhoi i'r Comisiwn ddiwedd mis Ionawr 2013. Roedd y rhain yn cynnwys:

- bod y rheolwr trawsnewid newydd wedi dechrau ei swydd. Bydd yn gyfrifol am reoli'r Cynllun Ymadael a fydd yn sylfaen i'r broses o adael y cytundeb ag Atos;

- bod rhai Aelodau wedi bod yn treialu defnyddio mod.gov ar gyfer papurau Pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn;

- bod mynediad at Outlook drwy'r we wedi cael ei ehangu i gynnwys ystod ehangach o ddyfeisiau, sy'n fwy cyfleus i ddefnyddwyr;

- bod nifer o sesiynau rheoli gwybodaeth wedi cael eu trefnu ar gyfer Aelodau a'u staff i godi ymwybyddiaeth ynghylch eu dyletswyddau mewn perthynas â Diogelu Data.

Bydd y wybodaeth ddiweddaraf ar gael yng nghyfarfod perfformiad nesaf y Comisiwn.

## 4. Y wybodaeth ddiweddaraf am Berfformiad Ariannol 2012-13

Cafodd y Comisiynwyr y wybodaeth ddiweddaraf am y gyllideb ar gyfer 2012-13, fel yr oedd ar ddiwedd mis Ionawr 2013. Cyrhaeddwyd y targed gwerth am arian o £470,000 am y flwyddyn, a disgwyliwyd iddo gynyddu ychydig ymhellach erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd hefyd yn debygol y byddai tanwariant o rhwng tua £0.3 miliwn a £0.4 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ond roedd hyn o fewn y targed o 1%. Roedd arian wrth gefn o £175,000 wedi'i neilltuo ar gyfer Darpariaeth Pensiwn yr Aelodau, a byddai hyn yn cynyddu'r tanwariant os na fyddai ei angen.

Bu'r Comisiynwyr yn trafod y ffordd y mae alldro y rhagolygon misol yn cael eu defnyddio gan y Bwrdd Rheoli a'r Bwrdd Buddsoddi er mwyn defnyddio holl gyllideb y Comisiwn yn effeithiol, gan nodi bod y prosesau rheoli arian hyn wedi'u rheoli'n dda yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.

## 5. Y fframwaith ar gyfer adroddiad blynyddol Comisiwn y Cynulliad a'r datganiad o gyfrifon ar gyfer 2012-13

Cafodd amlinelliad arfaethedig o'r Adroddiad Blynyddol ei gyflwyno er mwyn i'r Comisiwn ei ystyried. Cytunwyd ar y fframwaith.

**Cam i'w gymryd: Swyddogion i barhau gyda'r gwaith ar yr adroddiad.**

## 6. Adborth o Bwyllgor Archwilio 21 Chwefror (eitem lafar)

Rhoddodd Angela Burns AC y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar am gyfarfod Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad a gynhaliwyd yr wythnos flaenorol. Roedd y Pwyllgor wedi trafod y rhaglen Gwerth am Arian a'r arbedion effeithlonrwydd a oedd wedi'u cyflawni, ac roedd yn gefnogol o waith y Comisiwn sydd ar y gweill yn y maes hwn, gan nodi bod gweithdy ar gyfer staff perthnasol wedi'i drefnu er mwyn cryfhau'r gwaith hwn ymhellach.

Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi cwestiynu'r sgôr 'isel' a roddwyd i'r risg gweddilliol mewn perthynas â newidiadau TGCh yn y dyfodol.

Nododd y Comisiynwyr y byddai Lynne Flux yn gadael y Cynulliad, gan ddiolch iddi am ei gwaith gwerthfawr ac o safon uchel ar lywodraethu ac archwilio.

## 7. Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Comisiynydd

## 8. Unrhyw Fusnes Arall

Nid oedd materion eraill i'w trafod.

**Yr Ysgrifenyddiaeth**
**Chwefror 2013**